# MORGAN, DAVID LLOYD (1823 - 1892), meddyg yn y llynges

**Enw:** David Lloyd Morgan
**Dyddiad geni:** 1823
**Dyddiad marw:** 1892
**Rhiant:** David Morgan
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** meddyg yn y llynges
**Maes gweithgaredd:** Meddygaeth; Milwrol
**Awdur:** Thomas Mardy Rees

Ganwyd yn Rhosmaen, Llandeilo-fawr, mab David Morgan. Astudiodd ffisigwriaeth yn Llundain a Phrifysgol S. Andrews. Ymunodd â'r llynges yn 1846, a dyrchafwyd ef yn staff-feddyg (surgeon) yn 1854. Gwelodd lawer o droeon hynod ar draethau gorllewin Affrica (1847-9) ac yn y Crimea (1850-6), ac yn China gyda'r fyddin (1857-61). Yn 1862-5 yr oedd yn swyddog meddygol ar *H.M.S. Euryalus*, arolygwr Plymouth 1878-80, a Haslar 1880-2. Bu'n feddyg i'r frenhines. Bu farw 3 Rhagfyr 1892 yn Rhosmaen, Llandeilo-fawr.

## Awdur

**Y Parchedig Thomas Mardy Rees**, (1871 - 1953)

## Ffynonellau

*Notable Welshmen (1700–1900)* (1908), 422

*The Annual Register a record of world events*, 1892, 210

T. R. Roberts, *Eminent Welshmen: a short biographical dictionary of Welshmen... from the earliest times to the present* (1908)

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20732865

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu